Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MB DFM 1034/09

Andrew RT Davies AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Rhagfyr 2009

Annwyl Andrew,

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch Cwestiwn Llafar ar 2 Rhagfyr ynghylch y paratoadau am dywydd garw dros y gaeaf i ddod.

Yn dilyn digwyddiadau'r gaeaf diwethaf mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn rhan o drafodaethau ledled y DU i ledaenu'r arfer gorau o ran gweithgareddau cynnal a chadw Awdurdodau Priffyrdd dros y gaeaf. Cynhaliodd Gr• p Cyswllt Ffyrdd y DU (UKRLG) yr adolygiad hwn o dan gyfarwyddyd Gweinidogion yr Adran dros Drafnidiaeth.

Dangosodd yr adolygiad fod mwy o ddeialog, cydweithio a gwaith partneriaeth wedi digwydd yn ystod cyfnod y tywydd garw ym mis Chwefror rhwng pob haen o Lywodraeth Cymru nag yn ardaloedd eraill y DU. Er gwaethaf yr amgylchiadau anodd ar y pryd, gwnaeth y gallu hwn i gyd-weithio a rhannu adnoddau sicrhau ei bod yn haws cydgysylltu'r mesurau argyfwng yng Nghymru.

Fodd bynnag, trwy gydol y flwyddyn, trwy ein gwaith gyda'r UKRLG a'n paratoadau ein hunain, rydym wedi cymryd camau i sicrhau y bydd cyn lleied o amharu â phosib yn digwydd yn ystod gaeaf 2009-10, os ceir cyfnod hir o dywydd gaeafol oer, garw. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae sguboriau halen yr M4 bron yn llawn er mwyn sicrhau bod gweithgareddau lledaenu ar y draffordd yn gallu cael eu cynnal drwy'r gaeaf.

- Mae'r cyflenwad o halen yn y sguboriau yn cynnwys cyflenwad wrth gefn y gellir ei ddosbarthu i awdurdodau lleol ar sail blaenoriaeth, fel y bo angen.

- Ochr yn ochr â datblygiadau adroddiad yr UKRLG, gwnaethom ddiwygio'r Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd sy'n nodi'r arfer gorau ar gyfer y rhwydwaith yng Nghymru. Yn dilyn hyn, cyflwynwyd Dogfen ddrafft i dair ardal yr Asiantaeth Cefnffyrdd yng Nghymru a oedd yn nodi'r arfer gorau hwn ac yn

cynnig arweiniad ychwanegol pellach. Gwnaed gofynion penodol i gynnwys cryfhau gwydnwch/gallu'r Asiantaethau Cefnffyrdd a'u Darparwyr Gwasanaeth (awdurdodau lleol Cymru).

- Diwygiwyd y ddogfen "Well Maintained Highways Guidance". Mynychwyd y cyfarfodydd hyn gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a gyfrannodd at y broses.

O ganlyniad i'r gweithredoedd hyn, mae gan Lywodraeth y Cynulliad a'r mwyafrif o awdurdodau lleol fwy o wydnwch a mwy o gyflenwad o halen, a byddwn oll mewn sefyllfa well i ddelio â chyfnodau o dywydd gaeafol garw, pe baent yn digwydd.

Ieuan Wyn Jones
Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for the Economy and Transport